

# Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd: Gwasanaethau di-dor i bobl ag Anableddau Dysgu

Briff Prosiect – Mehefin 2019



## Rydym wedi lansio!

Mae Gwasanaethau Di-dor, Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd, i bobl ag Anableddau Dysgu wedi'i lansio'n ffurfiol o'r diwedd! Croesawom bobl ag anableddau dysgu, eu teuluoedd, rhieni a gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i Venue Cymru yn Llandudno, ar ddydd Gwener heulog ym mis Mehefin i siarad am y prosiect trawsnewid, yr hyn sy'n bwysig, yr hyn y byddwn yn ei wneud a sut y gall pobl gymryd rhan.

Dywedodd Neil Ayling, Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint, *“Roedd digwyddiad Lansio Gogledd Cymru yn llwyddiant ysgubol, gan ddod â phobl ag anableddau dysgu, rhieni, gofalwyr, gweithwyr proffesiynol a swyddogion y llywodraeth ynghyd i gynllunio sut y byddwn yn gwneud gwahaniaeth go iawn yn ein rhanbarth. Mae Gogledd Cymru Gyda'n Gilydd fel rhaglen newid yn wirioneddol weithredol!”* Dywedodd y Cynghorydd Chris Jones, aelod cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint *“Roeddwn mor falch o'r tîm a wnaeth y gynhadledd lansio hon mor llwyddiannus. Rydym wedi gwneud dechrau gwych gyda'n Rhaglen Trawsnewid Anabledd Dysgu, a byddwn yn mynd o nerth i nerth yn ystod y 18 mis nesaf. Rwy'n edrych ymlaen at weld y prosiect yn tyfu ac yn helpu i newid bywydau er gwell yn ein rhanbarth”.*



Llun: Susie Lunt o Wasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir y Fflint a'r Cyngh. Christine Jones o Gyngor Sir y Fflint yn dal y gacen ddathlu ynghyd â Bethan Jones-Edwards, Pennaeth Cydweithredu Rhanbarthol, Michelle Williams, gwirfoddolwr, Kathryn Whitfield, Rheolwr Rhaglen, Andy Roach, Cyfarwyddwr Gweithredol BIPBC, Neil Ayling Cyngor Sir y Fflint, Albert Heany, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio gyda Llywodraeth Cymru ac Emma Cater o Gyngor Sir y Fflint.



*“Cefais ddiwrnod dymunol iawn yn lansiad Prosiect Trawsnewid Anabledd Dysgu Gogledd Cymru. Rwy'n hynod o gyffrous i weld beth fydd yn digwydd yng Ngogledd Cymru dros y 18 mis nesaf”.*

Albert Heany,  
Llywodraeth Cymru



# Stori Shane

Gan gyflwyno 'Shane the Sheepdog'!

Yn hytrach na rhoi cyflwyniad ar Brosiect Anabledd Dysgu Gogledd Cymru, te benderynon ni gomisiynu fideo o Tape Music and Film i esbonio beth mae'r prosiect yn ei olygu mewn ffordd hwyliog a hygyrch.

Mae Shane yn gwirfoddoli yn Tape, a hwn oedd ei ddarn cyntaf o waith a gomisiynwyd. Dywedodd Steve Swindon o Tape *"mae hwn wedi bod yn brofiad dysgu gwych i Shane, mae wedi dysgu am derfynau amser a gweithio gyda chwsmeriaid ac wedi llwyddo i gynhyrchu a chyfarwyddo'r ffilm animeiddiedig fer hon i derfyn amser tynn iawn"*.



Darparodd Liana o'r tîm Trawsnewid AD lais 'Shane the Sheepdog' a mwynhaodd yn fawr iawn bod yn rhan o'r prosiect. Mae'r tîm Trawsnewid AD yn edrych ymlaen yn fawr at weld beth mae Shane the Sheepdog yn ei wneud nesaf wrth iddo barhau â'i anturiaethau dros y 18 mis nesaf.

Mae ychydig mwy o waith i'w wneud ar y ffilm, ond bydd yn cael ei uwchllwytho cyn bo hir. Cadwch lygad amdani!

Hoffai'r tîm ddiolch i Shane am ei holl waith caled a chyflwyno ei hun, a'r fideo yn y digwyddiad, da iawn!

# The Tyddyners!

Darparodd The Tyddyners adloniant gwych dros ginio! Roeddent yn werth chweil ac roedd y tîm wrth eu boddau eu bod yn gallu mynychu ein digwyddiad! Byddwn yn sicr yn eu harchebu ar gyfer digwyddiadau yn y dyfodol. Diolch.



## Arfer Gorau, Stondinau Marchnad a Chyd-gynhyrchu

Darparodd y digwyddiad lansio lwyfan i bawb ddod at ei gilydd a siarad am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ar draws y rhanbarth. Clywsom gyflwyniadau gan Susie o Gyngor Sir y Fflint yn siarad am eu gwaith tuag at sefydlu Prosiect Chwilio erbyn Medi 2019. Dywedodd Sonya ac Andrew o Gyngor Conwy wrthym am Ganolfan Marl a'u byngalo asesu a'u prosiect dilyniant. Dywedodd Barbara o Ynys Môn wrthym am eu prosiect "Gyda'n Gilydd fel Un". Dywedodd BIPBC wrthym am y tîm Cyswllt Iechyd ac mae'r gwaith y maent wedi bod yn ei wneud yn hyrwyddo arfer da i bobl ag anableddau dysgu mewn gofal sylfaenol ac eilaidd. Rydym am ddiolch i'r holl gyflwynwyr a'r cyfranwyr am baratoi a rhannu'r holl waith gwych hwn ar draws y rhanbarth. Os oes unrhyw un eisiau cysylltu ag unrhyw un o'r cyflwynwyr, anfonwch e-bost atom a byddwn yn trosglwyddo'r cyfeiriad e-bost / gwybodaeth gyswllt berthnasol.

Daeth nifer o sefydliadau i arddangos yr hyn y buont yn rhan ohono a chafodd y gwesteion gyfle i gerdded o gwmpas a dysgu beth mwy amdanynt a beth maen nhw wedi bod yn ei wneud yn ystod y egwyliau a chinio.



Hoffai'r tîm estyn diolch mawr i'r holl sefydliadau a ddaeth i rannu'r gwaith da y maent wedi bod yn ei wneud.

Roedd cyd-gynhyrchu yn thema fawr a oedd yn rhedeg drwy'r dydd ac mae wrth wraidd ein prosiect. Rydym am i bawb gymryd rhan wrth ein helpu i lunio gwasanaethau. Os ydych chi eisiau cymryd rhan yn unrhyw un o'r gweithiau rydym yn ei wneud byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Anfonwch e-bost atom yn [learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk](mailto:learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk)

## Cofnodion Gweledol

Hoffem ddiolch i Lois o Scarlet Design a ddaeth i'r digwyddiad lansio. Rwy'n credu bod pawb a fynychodd yn credu bod ei chynrychiolaeth weledol o'r diwrnod yn anhygoel! Unwaith y bydd gennym y fersiwn ddigidol lawn yn ôl byddwn yn ei phostio ar y wefan.

<https://www.northwalescollaborative.wales/learning-disabilities/>



# Beth nesaf...

Mae gan y rhaglen 5 ffrwd waith:

- **Gweithio Integredig**
- **Datblygu'r Gweithlu**
- **Technoleg Gynorthwyol**
- **Comisiynu a Chaffael a,**
- **Newid Cymunedol a Diwylliannol**

Mae cynllunio o gwmpas y 5 ffrwd waith wedi cael ei gychwyn gydag aelodau tîm wedi'u nodi i arwain neu gyd-arwain mewn meysydd penodol.

Cynhaliwyd trafodaethau gyda phartneriaid statudol i nodi pa faes fydd yn arwain ar brosiectau penodol sy'n gysylltiedig â phob un o'r 5 ffrwd waith.

- ✓ Mae Conwy wedi dewis arwain mewn perthynas â Chomisiynu a Chaffael;
- ✓ Mae Wrecsam yn arwain ar Deleofal;
- ✓ Mae Ynys Môn yn edrych ar gyllidebau cyfun ac felly'n dod yn naturiol i'r ffrwd waith Integreiddio gyda chysylltiadau â'r ffrwd waith Comisiynu a Chaffael;
- ✓ Mae BIPBC yn edrych ar ffrwd waith Datblygu'r Gweithlu o ystyried bod llawer o'r ffrwd waith hon yn cynnwys cysylltiadau iechyd, sgrinio a gwiriadau iechyd;
- ✓ Bydd Sir y Fflint yn arwain ar Newid Cymunedol a Diwylliannol.
- ✓ Gofynnir i Wynedd hefyd arwain ar ddatblygu'r gweithlu;
- ✓ Mae Sir Ddinbych yn ymgymryd â phrosiectau sy'n cyd-fynd â llif gwaith Newid Cymunedol a Diwylliannol.

Mae tri cham i'r gwaith. Y rhain yw:

Mapio: Mehefin i 19 Medi  
Mabwysiadu modelau: 19 Medi i 19 Rhagfyr  
Hwyluso modelau: Ionawr 20 i Rhagfyr 20

## **Mae digwyddiadau pellach yn cael eu cynllunio gan y tîm ar hyn o bryd:**

- **Digwyddiad Darparwyr Cymorth - Hydref 2019**
- **Digwyddiad Plant - Hydref 2019**

Anfonwch e-bost at y tîm os hoffech chi gymryd rhan a helpu yn y naill o'r digwyddiadau hyn.

E-bost [Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk](mailto:Learning.disability.transformation@flintshire.gov.uk)



Mae'r tîm yn croesawu syniadau, awgrymiadau ac adborth ar sut y gall y tîm fwrw ymlaen ag unrhyw un o'r ffrydiau gwaith. Anfonwch e-bost atom, lle byddwn yn hapus i gyfarfod.



North Wales **Together**  
Gogledd Cymru **Gyda'n Gilydd**

*Seamless services for people with Learning Disabilities*  
*Gwasanaethau ddi-dor i bobl ag Anableddau Dysgu*